# IESU'N gweddïo yng Ngethsemane

www.lambsongs.co.nz gan Jill Kemp (cyf. Dafydd Timothy) Lluniau gan Richard Gunther




Roedd Iesu wedi bod ar Fynydd yr Olewydd gyda'i ddisgyblion. Wrth droed y mynydd mae hen berllan o'r enw Gardd Gethsemane (Geth-sem-an-e).




Roedd Iesu yn drist gan ei fod yn gwybod y byddai, cyn bo hir, yn marw ar y groes. Cymerodd Pedr, Iago ac Ioan i'r berllan olewydd yng ngardd Gethsemane, i weddïo.



Eisteddodd ei ffrindiau yn yr ardd tra'r aeth Iesu ychydig bellter i ffwrdd i weddïo ar ei ben ei hun, gan ofyn i'w Dad Nefol i'w helpu i wynebu'r hyn oedd ar fin digwydd.




Pan aeth Iesu yn ôl roedd ei ffrindiau i gyd yn cysgu. "Deffrwch," meddai. “Dydych chi ddim yn gallu gwylio a gweddïo gyda fi am ddim ond awr?”



Yna, daeth gwarchodlu'r deml gyda ffaglau a chleddyfau yn chwilio am Iesu. Roedd Jwdas Iscariot, un o ddisgyblion Iesu, wedi cytuno i ddangos iddyn nhw pwy oedd Iesu os fasen nhw'n talu 30 darn arian iddo.



“Y person fydda i'n ei gyfarch gyda chusan ydy Iesu,” meddai Jwdas wrth y milwyr. Cafodd Pedr, Iago ac Ioan sioc pan ddaeth milwyr yr Archoffeiriad i arestio Iesu.



Roedd Pedr mor ddig fel iddo dorri clust Malchus, gwas yr Archoffeiriad, i ffwrdd. "Rho dy gleddyf heibio," meddai Iesu. "Bydd pobl sy'n defnyddio cleddyf yn cael eu lladd gan gleddyf." Estynnodd ei law ac iachau ei glust.



Dyma Jwdas yn bradychu Iesu a'r milwyr yn ei arestio a'i martsio i ffwrdd i gael ei gwestiynu gan yr archoffeiriad. Roedd ffrindiau Iesu wedi cael cymaint o fraw, fe wnaethon nhw redeg i ffwrdd.